# Miss Gee, Dinbych, canol y 19eg ganrif.
## Cristion ac athrawes

Yn flynyddol yng Nghymru fe gyflwynir Medal Gee i bobl gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru am eu ffyddlondeb i'r ysgol Sul. Hir wasanaeth yw unig amod ei derbyn, a dechreuwyd ar yr arferiad gan deulu Miss Gee er cof amdani hi a'i rhieni.

Yr oedd Miss Gee yn un o naw o blant yr argraffydd Thomas Gee a'i briod Susannah, Dinbych. Yr oedd ganddi ddiddordeb mawr yn yr ysgol Sul a gweithiodd yn galed i lwyddo gwaith y sefydliad hwnnw. Fe roddodd yr ysgol Sul, y mudiad dirwestol, ynghyd ag ambell ddiwygiad – yn enwedig 1904–05 – gyfle i ferched fod yn flaengar yn yr eglwysi ac yn gymdeithasol; cawsant lwyfan i ddefnyddio'u doniau trefniadol a chyhoeddus. Heblaw am hynny ychydig o gyfle oedd gan ferched cyffredin i ddatblygu eu doniau oherwydd patrwm cymdeithasol yr oes, agweddau dynion a'r baich trwm o orchwylion a dyletswyddau y disgwylid iddynt eu cyflawni.

Wrth gwrs yr oedd rhieni Miss Gee yn weithgar iawn gyda'r ysgol Sul. Ystyrid ei thad yn arch-holydd y cyfarfodydd ysgolion a bu ei mam yn athrawes ysgol Sul am ddeg a thrigain o flynyddoedd. Yr oedd llawer o nodweddion ei rhieni yn Miss Gee, mwyneidd-dra ei mam ac ysbryd penderfynol ei thad. Gwraig fechan eiddil oedd hi a chanddi feddwl clir a chalon llawn trugaredd a daioni. Tua chanol y 19eg ganrif, defnyddiodd yr ysgol Sul yn nhref Dinbych fel modd i gyflwyno'r Efengyl ac fel cyfrwng i addysgu'r werin datws nad oedd unrhyw gyfle addysgol arall ar gael iddynt.

Un o ardaloedd difreintiedig y dref oedd Lôn Abram lle'r oedd meddwon, ymladdwyr a herwhelwyr yn byw. Yr oedd rhai ohonynt yn ddychryn nid yn unig i drigolion y dref ond hefyd i'r heddweision. Parodd cyflwr y bobl hyn dristwch mawr i Miss Gee a phenderfynodd weithredu. Wedi ymgynghori â'i thad a'i chyfeillion llogodd dŷ yng nghanol Lôn Abram ym 1877 a dechrau

cynnal ysgol Sul yno ar gyfer plant ac oedolion. Llwyddodd i gasglu chwch o bobl i ddechrau ac yn raddol cynyddodd y nifer. Pan fyddai'r tafarndai'n cau am ddau o'r gloch byddai'n annog yfwyr yn gyson i ddod o'r dafarn i'r ysgol Sul. Wrth gwrs roedd rhaid rhoi digon o raff iddynt megis caniatáu iddynt gnoi baco a phoeri ar lawr cyn belled â'u bod yn parhau i ddod. A phan fyddai'r iaith yn mynd yn lliwgar ni fyddai'n cystwyo ond yn hytrach yn awgrymu'n garedig y gellid hepgor ambell air. Yr oedd y rhan fwyaf o'r mynychwyr yn gwbl anllythrennog felly aeth ati i ddysgu'r ABC iddynt; hyfrydwch mawr iddi oedd gweld dynion canol oed yn dysgu darllen ac ysgrifennu am y tro cyntaf. Ym 1882 prynodd Thomas Gee dŷ Bodawen yn y dref a'i gyflwyno i wasanaeth cenhadaeth ei ferch; hithau sefydlodd ysgol genhadol yno.

Gweithiodd yn galed hefyd gyda'r mudiad dirwestol. Am flynyddoedd lawer cynhaliai ysgol gân ar nos Sadwrn o naw hyd un ar ddeg er mwyn ceisio cadw rhai o'r tafarndai. Treuliai oriau ar nos Sadwrn yn nhai pobl oedd yn gaeth i alcohol er mwyn eu hatal rhag syrthio i demtasiwn a bu ganddi ran allweddol yn sefydlu Cymanfa Gwynedd, Undeb Dirwestol Merched Gogledd Cymru a Chymanfa Dyffryn Clwyd. Am gyfnod o hanner can mlynedd bu'n ymweld â'r ysbyty lleol bob nos Sul a phrynhawn Mawrth. Trwy gydol ei hoes mynegodd ei ffydd yn yr Arglwydd yn ymarferol yn ein hagwedd at ei chyd-ddyn, gan ddangos cariad gweithredol. Bu farw 25 Rhagfyr 1916.